

# Diwygio radical i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

## Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid

Mawrth 2023

Yn ystod gwanwyn 2023 gwnaethom gynnal pedwar digwyddiad i randdeiliaid i glywed gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gweithwyr proffesiynol, ac academyddion am wahanol gamau yn y system ofal. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol y trafodaethau hynny.

Dyma'r pedwar digwyddiad i randdeiliaid:

- Ar 26 Ionawr gyda rhieni geni
- Ar 26 Ionawr gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda rhieni geni
- Ar 2 Chwefror gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Yn ystod haf 2022, gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru sydd â phrofiad o fod mewn gofal.



**Diwygio radical i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal:** Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid

---

Safbwyntiau'r bobl ifanc, y gweithwyr proffesiynol a'r academyddion y buom yn siarad â hwy yw'r rhai a nodir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Ceir rhestr lawn o'r rhai a oedd yn bresennol yn atodiad 1.

## 1. Rhieni geni (26 Ionawr)

### Cyn gofal

#### Iechyd meddwl a lles rhieni geni

---

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym eu bod yn dioddef iechyd meddwl gwael. Roedd gan rai hanes o hunan-niweidio.

Dywedodd dau gyfranogwr â phrofiad o fod mewn gofal wrthym am eu profiadau o gael meddyginiaeth ar bresgripsiwn i'w cefnogi â'u hiechyd meddwl. Gwnaethant esbonio eu bod wedi cael presgripsiwn am gyffuriau gwrth-iselder a thabledi cwsg, ond bod y ddwy fenyw ifanc wedi ymateb yn wael iddynt. Roedd y ddau wedi penderfynu peidio â chymryd y tabledi mwyach, ond nid ydynt wedi dweud wrth eu meddygon teulu oherwydd eu bod yn ofni y bydd gweithwyr cymdeithasol yn gweld eu cofnodion meddygol ac yn eu beirniadu am wrthod triniaeth.

#### Gwasanaethau cymdeithasol

---

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod gwasanaethau cymdeithasol yn anwybyddu materion systematig sy'n cyfrannu at dynnu plant oddi wrth eu rhieni geni, megis problemau iechyd meddwl a phryderon tai.

Clywsom hefyd gan rai cyfranogwyr a oedd yn teimlo bod pwyslais ar dynnu plant oddi wrth eu teuluoedd, yn hytrach na'u helpu i aros gyda'i gilydd.

#### Profiadau cadarnhaol o weithio gyda gweithwyr cymdeithasol

Dywedodd un rhiant geni a oedd wedi gallu cadw ei phlentyn fod gweithwyr cymdeithasol wedi rhoi cyfle iddi brofi ei hun. Roedd hi'n poeni y byddai ei phrofiadau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol o'r adeg pan oedd hi'n blentyn a oedd yn agored i niwed yn cyfrif yn ei herbyn, ond nid oedd hynny'n wir. Anogodd rhieni geni eraill i osgoi bod yn amddiffynnol, croesawu cynigion o gymorth, dweud y gwir wrth bobl, a gadael i'r gwasanaethau cymdeithasol eich helpu.

Dywedodd cyfranogwr arall wrthym fod ganddi un gweithiwr cymdeithasol 'hyfryd'.

#### Tryloywder

Clywsom fod atgyfeiriadau cychwynnol i'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch rhieni geni yn aml yn cael eu gwneud heb i'r rhieni geni wybod.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym eu bod yn aml yn methu â deall pam mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud rhai penderfyniadau, a bod yn rhaid iddynt gytuno â beth bynnag yr oedd y gweithiwr cymdeithasol yn ei awgrymu, p'un a oeddent yn cytuno ag ef ai peidio, i sicrhau y gallent gadw eu plentyn.

### **Llwythi achosion**

Clywsom nad oes gan y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol yr amser a'r lle i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â rhieni geni. Gall hyn ei gwneud yn anodd i rieni geni a gweithwyr cymdeithasol herio ei gilydd yn adeiladol. Mae hefyd yn golygu nad oes gan weithwyr cymdeithasol yr amser weithiau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w rhieni geni am yr hyn sy'n digwydd.

Dywedodd rhai gweithwyr cymorth a oedd yn bresennol gyda'r rhieni geni wrthym fod pobl yn dod yn weithiwr cymdeithasol oherwydd eu bod eisiau helpu, ond wedyn yn cael eu trechu gan y system, a'r diffyg adnoddau ac amser ac egni i feithrin perthnasoedd.

Roedd un cyfranogwr yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn tueddu i ddysgu arferion drwg oddi wrth ei gilydd a dechrau torri corneli. Roedd yn teimlo bod hyn oherwydd bod gan weithwyr cymdeithasol lawer gormod o achosion.

### **Trosiant a chadw gweithwyr cymdeithasol**

Dywedodd rhai mamau geni wrthym fod gweithwyr cymdeithasol yn tueddu i symud ymlaen yn gyflym iawn, sy'n golygu ei bod wedi gweithio gyda llawer o wahanol weithwyr cymdeithasol.

Awgrymodd un cyfranogwr y gallai gweithwyr cymdeithasol ifanc ei chael hi'n arbennig o anodd gan nad ydynt yn barod ar gyfer pa mor heriol yw'r swydd. Dywedodd un cyfranogwr wrthym fod llawer o weithwyr cymdeithasol yn wynebu camdriniaeth gan rieni geni.

Clywsom gan rai cyfranogwyr nad yw gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cael achos newydd hyd yn oed yn dod i gwrdd â'r teulu. Maent yn darllen drwy nodiadau achos yn lle hynny. Cytunodd rhai cyfranogwyr y gall hyn atgyfnerthu safbwyntiau a gwallau mewn asesiadau blaenorol.

### **Profiadau blaenorol gyda gwasanaethau cymdeithasol**

Roedd llawer o rieni geni yn teimlo a oedd wedi bod yn y system ofal eu hunain yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu ymlaen llaw fel rhieni anaddas oherwydd eu profiadau eu hunain o fod mewn gofal. Roeddent yn teimlo bod hyn yn annheg, ac nad oedd y ffaith bod rhywbeth wedi digwydd iddynt hwy yn golygu y

byddent yn gwneud i'w plentyn eu hunain ddioddef yr un trawma. Dywedodd un fenyw ifanc wrthym ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei thrin fel ystadegyn gan y system. Dywedodd un arall wrthym fod profiad o fod yn y system ofal yn cael ei ddefnyddio fel arf yn erbyn rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Clywsom ni sawl gwaith bod lleiafrif o bobl ifanc yn credu bod gweithwyr cymdeithasol yn cael bonws pan bod plant yn cael eu tynnu oddiwrth eu teuluoedd geni. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym bod angen cael gwared o'r 'myth' fod awdurdodau yno i dynnu plant oddi wrth eu rhieni".

Dywedodd rhai rhieni wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin fel plant, ac nad oedd faint roeddent wedi newid ers eu plentyndod yn cael ei werthfawrogi digon. Roedd un cyfranogwr a oedd wedi dioddef trais domestig yn teimlo ei bod wedi cael ei labelu gan y gwasanaethau cymdeithasol.

## **Cymorth i rieni geni**

---

### **Cefnogaeth ar ffiniau gofal**

Clywsom fod bydwragedd a meddygon teulu, a allai fod yn gyswllt cyntaf i fenywod beichiog a menywod sy'n agored i niwed, yn tueddu i fod ymhlith y cyntaf i gyfeirio rhieni geni at gymorth. Gall hyn fod drwy ddarparu llawer o wybodaeth mewn pecyn, ond nid yw bob amser yn golygu esbonio'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i'r rhiant.

Dywedodd un rhiant geni â phrofiad o fod mewn gofal, a dynnwyd o ofal ei mam pan oedd hi'n faban, mai ychydig iawn o gymorth a gafodd ei mam. Pe bai ei mam wedi cael gwell cymorth efallai y byddai wedi gallu ei chadw.

Dywedodd cyfranogwr arall wrthym am y gefnogaeth ardderchog a gafodd gan brosiect Babi a Fi Barnardo's. Gwnaeth ei gweithiwr cymdeithasol ei hatgyfeirio ar ôl 20 wythnos. Dywedodd wrthym y gallai ei plentyn fod wedi cael ei dynnu o'i gofal pe na bai wedi cael y cymorth hwnnw. Aeth o fod ar ei phen ei hun a heb neb i'w chefnogi i fod â llawer o bobl o'i chwmpas. Eglurodd fod y gefnogaeth yn cynnwys y canlynol:

- Meithrin hyder
- Rhywun i fynd gyda hi i apwyntiadau meddyg
- Cefnogaeth a chynghor ymarferol (e.e. newid cewynnau, cysgu'n ddiogel)
- Cymorth iechyd meddwl/corfforol

- Cefnogaeth i wella ar ôl trais domestig

Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr yn gyfarwydd â chymorth ar ffiniau gofal. Clywsom fod lefelau gwahanol o wasanaethau cymorth yng ngwahanol rannau o Gymru.

Ar y cyfan, clywsom fod pobl yn aml yn gorfod cyd-fynd â gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach na bod y gwasanaethau'n addasu i ystyried eu hamgylchiadau unigol.

Clywsom adborth cadarnhaol hefyd am weithwyr Dechrau'n Deg. Dywedodd cyfranogwyr wrthym eu bod yn llai beirniadol a'i bod yn haws gweithio gyda hwy.

### **Cymorth eiriolaeth**

Clywsom fod angen gwasanaethau eiriolaeth cyn i achosion llys ddechrau i helpu gyda phethau fel:

- Deall jargon cyfreithiol a'r llysoedd
- Cefnogaeth cyn i blant gael eu tynnu i ffwrdd

Fodd bynnag, nid oedd un cyfranogwr yn teimlo bod cymorth eiriolaeth yn ystod proses y llysoedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Roedd ei heiriolwr wedi dweud wrthi y byddai ei phlentyn yn bendant yn cael ei dynnu i ffwrdd, rhywbeth yr oedd yn ei chael yn anodd iawn ei glywed.

### **Cymorth i dadau**

Dywedodd un tad wrthym y dylai fod mwy o gefnogaeth i dadau, a rhagor o wybodaeth am wasanaethau. Dywedodd y gall tadau deimlo eu bod wedi'u cau allan, yn aml oherwydd nad ydynt yn gwybod llawer am y system ofal.

Dywedodd mam wrthym fod ei phartner wedi cael cynnig cymorth, ond na chafodd ddim oherwydd bod gan y gwasanaethau cyfyngedig a oedd ar gael amseroedd aros hir iawn.

Roedd rhai pobl yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth ar dadau i ddeall a yw eu hymddygiad yn gamdriniol ac i'w helpu i newid eu hymddygiad.

### **Cam-drin domestig**

Clywsom nad yw pawb sydd mewn perthynas gamdriniol yn teimlo ei fod yn gallu gadael. Weithiau mae angen i weithwyr cymorth gymryd amser i feithrin perthynas ac i helpu rhywun i adael y berthynas mewn ffordd ddiogel.

## **Canolfannau asesu rhieni (neu 'unedau mamau a babanod')**

---

Siaradodd y cyfranogwyr â ni am ganolfannau asesu rhieni, lle mae rhieni geni a'u plentyn yn cael eu lleoli am o leiaf 12 wythnos fel arfer.

Clywsom y gall canolfannau asesu rhieni fod ymhell o gartref y rhieni geni. Dywedodd un rhiant geni sy'n byw yn ne Cymru wrthym ei bod wedi'i lleoli i ddechrau mewn canolfan asesu yng Nghaeredin. Dywedwyd wrthym, os ydych yn cael eich rhoi mewn canolfan asesu rhieni ymhell o'ch cartref, bod unrhyw gymorth eiriolaeth y byddwch yn ei gael yn debygol o fod yn rhithwir.

Dywedodd un rhiant geni wrthym fod y profiad o fod mewn canolfannau asesu rhieni ochr yn ochr â rhai rhieni eraill, yr oedd rhai ohonynt newydd gael eu rhyddhau o'r carchar, yn un gofidus.

Fodd bynnag, dywedodd un cyfranogwr wrthym fod ei hamser mewn canolfan asesu rhieni yn brofiad i'w groesawu o'i gymharu â'r hyn yr oedd wedi'i brofi gyda gofalwyr maeth ac mewn lleoliadau preswyl fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Dywedodd un rhiant geni wrthym y byddai wedi croesawu'r opsiwn o fynd i ganolfan asesu rhieni fel cyfle i ddangos i'r awdurdodau ei bod yn gallu gofalu am ei phlentyn. Yn anffodus, ni roddwyd yr opsiwn hwnnw iddi.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym nad oes gan y rhan fwyaf o rieni geni unrhyw ddewis ond rhoi'r gorau i'w llety pan fyddant yn symud i ganolfan asesu rhieni gan na allant fforddio ei gadw. Dywedodd cyfranogwr arall wrthym nad oedd ganddi unman i fynd ar ôl gadael y lleoliad, a'i bod yn byw gyda'i thad yn y pen draw. Fodd bynnag, roedd ei gysylltiadau â chyffuriau yn rhoi ei phlentyn mewn perygl, ac yn y pen draw cymerwyd ei phlentyn oddi wrthi am y rheswm hwnnw. Roedd hi'n teimlo bod y system wedi ei rhoi mewn sefyllfa lle byddai'n methu.

## **Y llysoedd**

---

Clywsom gan rai cyfranogwyr y gall proses y llysoedd fod yn hir, yn enwedig os yw gweithwyr cymdeithasol yn newid o hyd neu os na chynigiwyd digon o gymorth rhianta i'r rhiant geni.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod canlyniadau achosion llys yn dibynnu ar gymeriad y barnwr a hyd yn oed ei hwyliau. Clywsom nad oedd rhai barnwyr yn ymgysylltu â'r rhieni geni o gwbl, tra bod eraill yn ymddangos yn decach ac yn herio gweithwyr cymdeithasol i roi mwy o gyfiawnhad na 'risg o niwed emosiynol yn y dyfodol' wrth symud plentyn.

Clywsom fod gan wahanol farnwyr a gweithwyr cymdeithasol wahanol agweddau at risg. Er enghraifft, yn dilyn achos *Baby P* roedd yn ymddangos bod rhai swyddogion yn fwy awyddus i osgoi risg.

Roedd rhai rhieni geni yn teimlo bod proses y llysoedd yn brofiad brawychus a bod hynny'n ddiangen.

### **Cefnogaeth i rieni geni ar ôl achos llys**

---

Dywedodd rhai rhieni geni wrthym nad oes cefnogaeth i'r rhieni unwaith y bydd plentyn wedi'i dynnu o'u gofal. Mae'r gweithwyr cymdeithasol yno i'w plentyn, ond mewn gwirionedd dylai fod cefnogaeth i'r teulu cyfan. Dywedodd un rhiant geni wrthym ei bod wedi cysylltu i gael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol ar ôl i'w phlentyn gael ei dynnu o'i gofal, ond bu'n rhaid i'w sefyllfa droi'n argyfwng cyn iddi gael y cymorth hwnnw.

Dywedodd un cyfranogwr, a oedd wedi cadw ei phlentyn, nad oedd yn gallu cael mynediad at gymorth gofal plant Llywodraeth Cymru. Er ei bod yn gweithio'n amser llawn, nid yw ei phartner yn gwneud hynny. Mae'n chwilio am waith ar hyn o bryd ond, gan ei fod wedi treulio amser yn y carchar, mae'n ei chael yn anodd dod o hyd i waith. Galwodd am ymestyn y cynnig gofal plant yn awtomatig i bob rhiant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

## **Mewn gofal**

### **Cefnogaeth i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd**

---

Dywedodd un fenyw ifanc wrthym nad oedd yn cael digon o gymorth fel pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i reoli'r trawma o gael eu tynnu oddi wrth eu teulu. Mae hyn yn arwain at ddirgartrefedd, ac at gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

### **Gwasanaethau cymdeithasol**

---

Soniodd un cyfranogwr, a leolwyd gydag un o'i deidiau a neiniau, am ei phrofiadau negyddol o wasanaethau cymdeithasol. Roedd hi'n teimlo nad oeddent yn ei monitro nac yn ei chefnogi yn ystod ei phlentyndod. Dywedodd rhiant geni arall â phrofiad o fod mewn gofal wrthym fod yn rhaid iddi achosi argyfwng tra roedd mewn gofal - e.e. drwy gael ei harestio - i gael unrhyw gefnogaeth gan ei gweithiwr cymdeithasol.

Dywedodd rhai merched ifanc wrthym eu bod wedi cael nifer o wahanol weithwyr cymdeithasol yn ystod eu plentyndod, gan nodi bod diffyg cysondeb yn achosi diffyg ymddiriedaeth. Nid oedd yn bosibl ffurfio perthynas gadarnhaol â



hwy. Nid oedd unrhyw esboniad pam eu bod yn cael gwahanol weithwyr cymdeithasol, ac roedd hyn yn cynyddu eu teimlad o gael eu gadael.

## **Gofal preswyl**

---

Lleisiodd un fenyw ifanc bryderon wrthym am lefel y diogelu mewn cartrefi preswyl. Dywedodd wrthym ei bod wedi cael perthynas â dyn 20 oed pan oedd hi'n blentyn 13 oed yn byw mewn cartref preswyl. Roedd y staff yn ei chartref yn gwybod amdano ond ni leisiwyd unrhyw bryderon ac ni wnaeth unrhyw un siarad â hi am y risgiau. Daeth y berthynas yn un lle roedd hi'n cael ei cham-drin a'i rheoli, a daeth hi'n feichiog yn 16 oed.

## **Gofal gan berthynas**

---

Roedd un cyfranogwr yn cwestiynu pa mor briodol oedd rhai lleoliadau gofal gan berthnasau. Dywedodd wrthym fod gwasanaethau cymdeithasol wedi lleoli ei phlentyn gyda'i mam (nain y plentyn). Fodd bynnag, roedd y cyfranogwr ei hun wedi cael ei rhoi mewn gofal oherwydd ystyriwyd nad oedd ei mam yn fam addas. Ers hynny mae'r plentyn wedi'i dynnu o ofal mam y cyfranogwr.

## **Addysg**

---

Dywedodd rhai menywod ifanc wrthym eu bod wedi cael eu gwahardd o nifer o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Er bod athrawon wedi ceisio mynd i'r afael â'r ymddygiad gwael, ni wnaeth unrhyw un eu helpu i geisio cymorth i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol a oedd yn achosi'r ymddygiad hwnnw.

Clywsom hefyd fod symud ysgol yn golygu nad oedd pobl ifanc byth yn teimlo eu bod yn perthyn ac nad oeddent yn ffurfio grwpiau o ffrindiau.

## **Ar ôl gofal**

### **Tai**

---

Clywsom gan rai cyfranogwyr fod cystadleuaeth am dai yn broblem fawr i'r rhai sy'n gadael gofal. Dywedodd rhai rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym y gall hyd at 500 o bobl fod yn cystadlu am un tŷ.

### **Cefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal**

---

Dywedodd rhai rhieni geni wrthym nad oeddent wedi cael fawr ddim cyswllt, neu ddim cyswllt o gwbl, â gwasanaethau cymdeithasol ar ôl troi'n 16 oed a gadael gofal maeth. Nid oedd ganddynt gynllun llwybr.

### **Addysg uwch**

---

Dywedodd un cyfranogwr wrthym nad oedd ei phrifysgol wedi cynnig unrhyw gymorth iddi, er gwaethaf y rhwystrau sylweddol yr oedd yn eu hwynebu fel myfyriwr â phrofiad o fod mewn gofal.

## **Newidiadau mawr sydd eu hangen**

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

**Cefnogaeth ymyrraeth gynnar i rieni sy'n agored i niwed:** dylai rhieni sy'n agored i niwed gael cymorth dwys, cyfannol, cofleidiol o ddechrau eu beichiogrwydd.

**Peidiwch â beirniadu rhiant geni ar sail ei blentyndod:** ni ddylai gwasanaethau cymdeithasol a'r llysoedd dybio bod rhieni geni yn rhieni anaddas eu hunain oherwydd bod ganddynt brofiad o'r system ofal.

**Cefnogaeth i dadau:** gwell cymorth i dadau i'w helpu i gadw eu plant ac i ddeall sut i ryngweithio â'r system ofal.

**Cymorth iechyd meddwl statudol ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal:** dylai pob plentyn gael atgyfeiriad ar unwaith at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasged pan fydd yn cael ei gymryd i ofal.

Dylai profiad o fod mewn gofal fod yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Cefnogaeth well i ofalwyr maeth:** i helpu gofalwyr i reoli problemau o ran ymddygiad heb orfod dibynnu ar wasanaethau cymdeithasol.

## 2. Gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda rhieni geni (26 Ionawr)

### Cyn gofal

#### Eiriolaeth

---

Clywsom fod gwir angen rhaglenni cymorth eiriolaeth ar rieni geni sy'n wynebu risg i'w helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a'r broses amddiffyn plant. Yn aml iawn byddai pethau'n gwaethygu'n rhy gyflym ac ymhen dim byddent mewn achos llys, ac erbyn hynny byddai'n rhy hwyr i'w dynnu yn ôl, a byddai'r plant yn mynd i mewn i'r system ofal.

Dywedodd un cyfranogwr wrthym fod angen i rieni ddeall y system i'w grymuso i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol er mwyn iddynt gynorthwyo rhieni i wneud y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod plant yn aros gartref. Mae'r model eiriolaeth yn gwneud hyn, a dylai pob awdurdod lleol gael gwasanaeth eiriolaeth i sicrhau bod rhieni'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Tynnodd eraill sylw at y ffaith y gall eiriolaeth helpu i ail-gydbwysu'r anghydbwysedd canfyddedig mewn grym drwy helpu'r rhiant geni i ddeall bod y broses amddiffyn plant yno i ddiogelu'r plentyn.

#### Gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar

---

Roedd rhai'n pwysleisio gwerth gwasanaethau cymorth gyda dull seiliedig ar berthynas sy'n canolbwyntio ar gynllun ar gyfer y teulu, yn hytrach nag amserlen anghyson o apwyntiadau fel y mae rhieni geni yn aml yn ei gael gan wasanaethau statudol.

Cytunodd y cyfranogwyr fod prosiectau cymorth dwys fel Project Undod a Babi a Fi yn cynnig llawer mwy na gwasanaethau eiriolaeth sylfaenol – maent yn cynnig gwybodaeth am wasanaethau eraill ac yn rhoi arweiniad, yn mynd gyda rhieni geni i gyfarfodydd, ac ati.

Tynnodd eraill sylw at bwysigrwydd cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a mamau sy'n agored i risg cam-drin domestig. Lleisiodd y cyfranogwyr bryderon ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau i helpu'r menywod hynny.

Cytunodd y cyfranogwyr hefyd fod angen i'r gwasanaethau cymorth hynny ddechrau'n gynnar, tua 12 wythnos ar ôl dod yn feichiog.

Roedd rhai cyfranogwyr yn dadlau o blaid cyllid gan Lywodraeth Cymru yn hytrach nag awdurdodau lleol, a all helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Ychwanegodd eraill fod natur tymor byr y cyllid ar gyfer llawer o wasanaethau cymorth yn tanseilio'r systemau monitro sydd eu hangen, gan eu bod yn cael eu hanwybyddu wrth ruthro i'w gweithredu.

### **Profiadau rhieni geni â phrofiad o fod mewn gofal**

---

Eglurodd un gweithiwr elusen fod plant rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn destun achos amddiffyn plant ar unwaith. Hyd yn oed cyn ymgysylltu â'r system mae'r rhieni, ar yr adeg ar ôl dod yn feichiog, yn cael eu cofrestru fel rhieni â phrofiad o fod mewn gofal. Mae llawer o fenywod ifanc wedi bod mewn sefyllfa lle mae eu plentyn yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y gofrestr amddiffyn plant oherwydd bod gan y fam yn brofiad o fod mewn gofal, wedi cael dechrau anodd mewn bywyd, neu wedi cael ei magu'n wael.

Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith, os ydym yn rhoi plant mewn gofal i roi cychwyn gwell iddynt, ei bod yn anghyson dweud wrth yr un plant pan maent yn dod yn oedolion bod angen amddiffyn eu plentyn oherwydd eu plentyndod eu hunain. Ychwanegodd fod angen newid diwylliant o fewn rhai awdurdodau lleol i ddeall nad yw profiad rhywun o fod mewn gofal o reidrwydd yn gadael glasbrint negyddol i'r unigolyn hwnnw wrth iddo ddod yn rhiant.

### **Rôl ddeuol gweithwyr cymdeithasol fel rhieni corfforaethol ar gyfer rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

---

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod angen help ar awdurdodau lleol i ddeall y rhwystrau i rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Er enghraifft, dylai tai fod yn flaenoriaeth benodol i awdurdodau lleol, a ddylai sicrhau bod gan rieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal dai sy'n addas ar gyfer baban newydd-anedig.

Unwaith eto, clywsom y dylai awdurdodau lleol a rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain gydnabod na ddylai bod yn rhiant â phrofiad o fod mewn gofal ynddo'i hun olygu bod eich plentyn yn cael ei roi ar gofrestr amddiffyn plant.

### **Y system gyfreithiol**

---

Yn aml, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd cyfreithwyr yn edrych yn fanylach ar yr achos, a'u bod yn tueddu i gyd-fynd â'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei ddweud. Weithiau nid yw'r hyn y mae rhieni'n ei ddweud, yn enwedig rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn cael ei gymryd o ddifrif.

Ychwanegodd eraill fod penderfyniadau ynghylch cynlluniau gofal yn cael eu gwneud yn y llys heb fod y rhieni wedi cael mynediad at wasanaethau cymorth perthnasol ymlaen llaw.

Clywsom bryderon hefyd nad oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru, a bod menywod o Gymru'n cael eu hanfon i garchardai yn Lloegr lle nad ydynt efallai'n cael cymorth digonol. Clywsom astudiaethau achos am fenywod yn cuddio eu beichiogrwydd ac yn rhoi genedigaeth yn eu celloedd heb unrhyw gymorth.

### **Canolfannau asesu rhieni ('unedau mamau a babanod')**

---

Trafododd y cyfranogwyr yr heriau sy'n wynebu rhieni geni sy'n cael eu hanfon i ganolfannau asesu rhieni. Clywsom mai ychydig iawn o leoliadau sydd yng Nghymru, felly mae rhieni geni yn cael eu hanfon yn gymharol bell i ffwrdd. Pan fydd rhieni geni yn dychwelyd o'r lleoliadau, gall fod yn anodd eu hailintegreiddio i'r gymuned. Yn aml ni allant fynd yn ôl i'w llety gwreiddiol gan nad yw'r awdurdod lleol wedi cadw eu lle.

### **Lleoliadau maethu rhiant/baban**

---

Clywsom am leoliadau maethu rhiant/babi, lle bydd rhiant a baban yn aros gyda rhiant maeth, neu i'r gwrthwyneb, fel y gall y rhiant gael cymorth cofleidiol a chyngor ar ofalu am ei blentyn. Dywedodd cyfranogwyr wrthym y gall y lleoliadau hyn helpu rhieni i deimlo'n unedig gyda'u babi a'u bod yn cael eu cefnogi fel rhieni newydd. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr wrthym hefyd mai ychydig iawn o leoliadau o'r fath sydd yng Nghymru.

### **Casglu data**

---

Clywsom fod data gwell ar gael yn Lloegr nag yng Nghymru ynghylch pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Er bod llawer o ddata yn cael eu casglu gan wahanol asiantaethau, nid ydynt o reidrwydd yn cael eu casglu'n gyson, felly ni ellir eu harchwilio mewn ffordd sy'n ateb y cwestiynau pwysicaf.

Clywsom fod Cymru yn colli cyfle: pe bai data gwell a mwy cadarn yn cael eu casglu, gallai prifysgolion eu dadansoddi i nodi lle mae aneffeithlonrwydd yn y system neu i nodi arferion da.

Clywsom am rwystredigaeth gan randdeiliaid a gymerodd ran mewn gweithgor gyda swyddogion o Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i edrych ar wella data'r cyfrifiad Blynyddol ar blant sy'n derbyn gofal. Yn eu barn nhw, mae'n ymddangos mai newid cyfyngedig iawn oedd yna o ganlyniad i'r gwaith.

**Diwygio radical i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal:** Canfyddiadau digwyddiadau i randdeiliaid

---

Galwodd y cyfranogwyr am ddata hydredol gyda mwy o ffactorau cyd-destunol (e.e. amddifadedd, iechyd, ac ati).

## **Newidiadau mawr sydd eu hangen**

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

**Gwasanaethau ymyrraeth gynnar, gan gynnwys eiriolaeth, ar gyfer pob rhiant geni â phrofiad o fod mewn gofal:** cefnogi rhieni geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal gyda gwasanaethau cymorth dwys sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, o gamau cynnar beichiogrwydd i weithio gyda rhieni geni i ddeall a mynd i'r afael â phryderon gweithwyr cymdeithasol.

**Eiriolaeth rhieni cyn gynted ag y caiff plentyn ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant:** cynnal urddas a hawliau rhieni, meithrin perthynas gyda'r teulu i ddeall rhai o'r rhwystrau a'r heriau yn well.

**Data gwell:** i helpu i nodi aneffeithlonrwydd ac arferion da ar draws y system ofal.

**Gwasanaethau iechyd meddwl i ddod o dan yr un to:** nodau hirdymor a chysondeb o ran dulliau ar draws gwasanaethau cymorth iechyd meddwl.

### 3. Gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda phlant â phrofiad o fod mewn gofal (2 Chwefror)

#### **Mewn gofal**

##### **Profiadau cyffredinol plant o'r system ofal**

---

Dywedodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr wrthym fod plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel arfer yn ymwybodol iawn o'u statws gofal. Clywsom fod stigma yn rhwystr mawr i bobl ifanc – gallant deimlo bod eu statws gofal yn diffinio ac yn dylanwadu ar y ffordd y cânt eu gweld.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod anghysondebau sylweddol yn lefel y cymorth a gynnigir i blant â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru. Gall profiadau'r plant hyn amrywio'n fawr yn dibynnu ar ba awdurdod lleol y maent yn byw ynddo.

Clywsom gan un cyfranogwr, mewn achosion lle mae plant wedi ffynnu, nad yw hynny oherwydd y system yn ei chyfanrwydd, ond oherwydd unigolion sydd wedi gwneud gwahaniaeth. Mewn geiriau eraill, mae plant wedi ffynnu *er gwaethaf* y system yn hytrach nag *o'i herwydd*. Ychwanegodd y cyfranogwr, lle mae gweithwyr proffesiynol wedi gwneud gwahaniaeth, bod hyn fel arfer *er gwaethaf* y ffaith nad ydynt wedi cael yr adnoddau sydd eu hangen i wneud eu gwaith.

#### **Eiriolaeth**

---

Mae angen i blant gael rhywun i gael perthynas gref, ddibynadwy ag ef. Mae angen un person sy'n rhoi sefydlogrwydd a pharhad o ran gofal. Clywsom y gallai eiriolwyr gyflawni'r rôl honno.

Bu gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn trafod yr angen am eiriolaeth breswyl: eiriolwyr sydd wedi'u lleoli yng nghartrefi plant, yn hytrach nag eiriolaeth yn seiliedig ar faterion. Clywsom am anghysondeb enfawr rhwng cyfran y cartrefi preswyl dan reolaeth awdurdodau lleol ag eiriolwyr penodedig (100 y cant) a chyfran y cartrefi preswyl preifat/gwirfoddol (tua 15 y cant).

Clywsom mai un o'r heriau enfawr o fewn eiriolaeth yw esbonio'r system yn well i bobl ifanc a gwneud iaith yn addas i blant. Cytunodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr, gyda rhai yn galw am ymestyn eiriolaeth annibynnol i bob plentyn ar draws y system ofal.

Fodd bynnag, clywsom bryderon nad yw rhai plant yn manteisio ar y cynnig gan eu bod yn teimlo bod ganddynt ormod o weithwyr proffesiynol yn eu bywydau eisoes. Os nad oes gan blentyn eiriolwr, mae'n dibynnu wedyn ar ei weithiwr cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo ac i egluro prosesau ffurfiol, er enghraifft. Nid yw pob person ifanc yn cael y cymorth hwnnw gan ei weithiwr cymdeithasol. Roedd eraill yn cytuno, gan ychwanegu y byddai'n ddefnyddiol gwybod pam nad yw rhai plant yn manteisio ar eu cynnig yn y lle cyntaf i wella mynediad.

## **Iechyd meddwl**

---

Dywedodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr wrthym mai iechyd meddwl yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn y system ofal. Clywsom gan rai cyfranogwyr fod yn rhaid i blant fod mewn argyfwng i gael cymorth. Roedd eraill yn cytuno, gan ddweud wrthym bod pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer ymyriad therapiwtig pan mae eu hymddygiad eisoes wedi dod yn broblematic. Mae gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn galw am i bob person ifanc gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i gydnabod ei drawma yn y gorffennol, p'un a yw'n arddangos ymddygiad problemus ai peidio.

Clywsom fod asesiadau iechyd meddwl fel y'u rhagnodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn annigonol. Mae diffyg arweiniad ar gael i staff, ac felly mae'r asesiadau'n amrywio o ran ansawdd ledled Cymru.

Clywsom y dylid rhoi mwy o gyllid i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar feithrin perthynas â phobl ifanc lle maent yn cael eu meithrin. Ni ddylai'r pwyslais fod ar 'drwsio' plentyn.

Tynnodd eraill sylw at yr angen am ddull seiliedig ar drawma, sy'n deall yr effaith y mae trawma wedi'i chael ar iechyd meddwl pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

## **Gwasanaethau cymdeithasol**

---

Cytunodd y cyfranogwyr fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael llawer o weithwyr cymdeithasol yn ystod eu hamser yn y system ofal (clywsom un enghraifft o blentyn yn cael 18 o weithwyr cymdeithasol mewn 2 flynedd). Mae yna ddiffyg sefydlogrwydd a pharhad, sy'n anodd – ac yn niweidiol – i bobl ifanc am nifer o resymau gwahanol:

- gall fod yn anodd i bobl ifanc sy'n gorfod ailadrodd stori eu bywyd mor rheolaidd i wneud yn siŵr bod eu gweithwyr cymdeithasol newydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.



- mae diffyg cysondeb gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gweithio gyda phlentyn yn achosi oedi o ran cynllunio gofal a champau gweithredu.
- mae'n cael effaith negyddol ar awyrgylch gwaith y gweithlu gofal plant, gan effeithio ar agweddau gweithwyr cymdeithasol a gwneud y proffesiwn yn llai deniadol.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod diffyg data ar nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd gan bob plentyn, ac y byddai hyn yn ddefnyddiol i ddeall profiadau plant o wasanaethau cymdeithasol.

Clywsom, oherwydd eu llwyth achosion uchel, fod gweithwyr cymdeithasol yn tueddu i ganolbwyntio ar blant risg uchel. Awgrymodd eraill, oherwydd bod amser gweithwyr cymdeithasol mor gyfyngedig, fod rhai pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael eu cefnogi gan gynorthwyyr gwaith cymdeithasol, nad ydynt efallai'n gymwys i fod yn weithwyr cymdeithasol ac a allai fod wedi cael hyfforddiant annigonol.

Lleisiodd cyfranogwyr bryderon am lwythi achosion uchel, a phroblemau recriwtio a chadw ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Roedd pryderon hefyd am y cyllid ar gyfer hyfforddiant a lefelau'r bwrsariau sydd ar gael i ddarpar weithwyr cymdeithasol.

Clywsom hefyd y gall dull y gwasanaethau cymdeithasol fod yn un 'blwch ticio' ac nad yw bob amser yn ystyried profiadau neu anghenion y plentyn. Dywedodd cyfranogwr arall wrthym nad yw gweithwyr cymdeithasol bob amser yn cymryd cyfrifoldeb am y diffyg parhad yng ngofal a chymorth plentyn.

Pwysleisiodd un cyfranogwr ei fod o'r farn bod diwygio radical yn golygu ad-drefnu gwasanaethau fel eu bod yn canolbwyntio ar y plant, yn hytrach nag yn canolbwyntio ar systemau.

## **Lleoliadau**

---

### **Lleoliadau maethu**

Clywsom gan wahanol grwpiau o gyfranogwyr mai gwella gofal maeth oedd un o'r ffyrdd gorau o wella bywydau plant â phrofiad o fod mewn gofal. Yn anffodus, dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr wrthym y dylid gwneud mwy i wella sefydlogrwydd lleoliadau.

Roedd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr yn cytuno bod llawer o drefniadau dros dro ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac nad yw hyn yn rhoi unrhyw ymdeimlad o sefydlogrwydd iddynt. Ychwanegodd eraill fod rhai o'r lleoliadau tymor byr hynny'n dod yn rhai tymor hir oherwydd problemau staffio a phrinder lleoliadau gwell, hyd yn oed pan nad ydynt yn addas i ddiwallu anghenion hirdymor y plentyn.

Lleisiodd rhai cyfranogwyr bryderon bod prinder cenedlaethol o leoliadau maethu da. Cyn hynny, byddai gweithwyr cymdeithasol yn paru lleoedd ag anghenion y plentyn penodol. Nawr, mae plant yn cael eu hanfon i unrhyw le gan fod cymaint o brinder gwelyau. Weithiau maent yn cael eu hanfon i ffwrdd o'u ffrindiau a'r rhai sy'n eu cefnogi. Fodd bynnag, clywsom hefyd ei bod weithiau'n iawn ac yn briodol lleoli plentyn ymhell o'i gartref.

Trafododd rhai cyfranogwyr yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant, cronfa ddata ar-lein y cyfeirir ati fel y 4-C, i baru plant â lleoliadau. Nid yw hyn wedi gweithio fel y disgwyliwyd. Y bwriad oedd y byddai awdurdodau lleol yn rhoi'r holl leoliadau yno a byddai'r holl ofalwyr maeth yno fel y gellid cael paru pobl. Ond nid yw'r system wedi gweithio - mae wedi ychwanegu haen o fiwrocratiaeth ac nid yw wedi helpu i baru pobl. Mae wedi gwaethygu'r sefyllfa.

Dywedodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr wrthym fod angen mwy o gymorth ar ofalwyr maeth. Clywsom fod angen sefydlogrwydd a chysondeb arnynt yn y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy. Clywsom hefyd fod angen cymorth ar ofalwyr maeth i ddiwallu anghenion addysgol pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Clywsom fod materion ymddygiad yn aml yn cael blaenoriaeth, yn hytrach na helpu i fynd i'r afael â bylchau yn addysg pobl ifanc.

### **Lleoliadau preswyl (cartrefi plant)**

Clywsom nad yw gwerth y gwaith a wneir gan staff cartrefi preswyl yn cael ei werthfawrogi digon. O ganlyniad, gall staff newid yn aml, sy'n peri trallod i bobl ifanc. Clywsom hefyd fod diffyg hyfforddiant ymhlith rhai staff ar faterion trawma ac ymlyniad. Gall hyn arwain at fethiant i nodi pryd mae angen cymorth gan weithwyr iechyd meddwl ar blant, yn hytrach na chymorth therapiwtig gan staff cartrefi preswyl.

Eglurodd rhai cyfranogwyr wrthym y gall rhywun o fewn y sefydliad, ond nid yn y gadwyn reoli, gynnal arolygiad rheolaidd o gartrefi plant yng Nghymru. Yn Lloegr, cynhelir arolygiadau gan arolygydd annibynnol unwaith y mis (a elwir yn 'ymweliadau rheoliad 44' neu 'ymweliadau monitro annibynnol'). Dywedodd eraill

wrthym nad yw arolygiadau'n cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd, ac nad oes digon o graffu ar berfformiad cartrefi gofal.

Clywsom hefyd ei bod yn aml yn anodd iawn symud plant o leoliad preswyl i leoliad maethu. Gall plant mewn lleoliadau preswyl gael labeli nad ydynt yn haeddu eu cael, a all ddylanwadu ar leoliadau gyda gofalwyr maeth.

### **Gofal gan berthynas**

Clywsom gan wahanol grwpiau o gyfranogwyr y bu cynnydd mewn lleoliadau gan berthnasau a symudiad i ffwrdd o fabwysiadu fel opsiwn gofal tymor hir. Roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr a oedd hyn yn beth cadarnhaol, ac yn teimlo mai amser a ddengys. Mynegodd eraill bryder bod aelodau teulu weithiau dan bwysau i ofalu am blant sydd mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Yn aml nid yw'r aelodau hyn o'r teulu - neiniau a theidiau yn aml - mewn sefyllfa dda i wneud hynny, ac nid yw'r lleoliad yn llwyddiannus. Clywsom fod hyn yn ganlyniad anfwriadol y polisi o leihau nifer y plant sydd mewn gofal.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant ar ofalwyr sy'n berthnasau, fel y cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael i ofalwyr maeth. Clywsom y gall fod yn heriol iawn i aelod o'r teulu ofalu am blentyn sy'n agored i niwed, a bod cymorth yn hollbwysig er mwyn i'r lleoliad fod yn llwyddiannus. Galwodd rhai am i lwfansau gofalwyr sy'n berthnasau gael eu dyrchafu i gyfateb i'r hyn y mae gofalwyr maeth yn ei gael.

Roedd gan gyfranogwyr eraill bryderon bod rhai trefniadau gofal gan berthnasau yn anffurfiol, ac nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol. Nid oes gan y gofalwyr hynny, a'r bobl ifanc hynny yn arbennig, ddigon o gymorth.

### **Dileu elw o ofal plant**

Clywsom gefnogaeth gyffredinol i fwriad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant.

Fodd bynnag, clywsom bryderon bod yr amserlen ar gyfer gwneud hyn yn afrealistig a bod gormod i awdurdodau lleol a darparwyr gofal ei wneud o fewn cyfnod o bum mlynedd. Awgrymwyd y byddai newid y farchnad gofal cymdeithasol yn gyfan gwbl yn gofyn am amserlen o 10 i 15 mlynedd ac y byddai gwneud hyn o fewn yr amserlenni presennol yn gwaethygu'r broblem bresennol o ran cyflenwad a galw.

## **Plant ar goll**

Galwodd rhai cyfranogwyr am ymateb mwy cyson i adegau lle mae plant yn mynd ar goll o ofal ledled Cymru. Mae cyfweiliadau dychwelyd adref yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc siarad am eu profiadau yn ystod cyfnod o fod ar goll. Ond mae pryderon bod y dull o gynnal cyfweiliadau dychwelyd adref yn amrywio ledled Cymru.

## **Mabwysiadu**

---

Soniodd rhai cyfranogwyr am eu pryderon nad yw plant sy'n cael eu mabwysiadu bellach yn cael yr un cymorth ag y mae plant eraill sy'n dal i fod yn y system faethu yn ei gael.

Bu rhai cyfranogwyr yn myfyrio'n gadarnhaol ar PATHways (TESSA yn flaenorol), sef rhaglen ymyrraeth sy'n helpu rhieni sy'n mabwysiadu i gael canlyniadau gwell i'w plant drwy roi mynediad cynnar iddynt at seicolegydd clinigol a chymorth gan gymheiriaid.

## **Addysg**

---

### **Symud ysgolion**

Roedd y cyfranogwyr a siaradodd â ni am addysg yn cytuno bod parhad yn addysg ysgol plant yn bwysig. Dylai plant aros yn yr un ysgol lle bynnag y bo modd, i ddatblygu a chynnal grwpiau cyfeillgarwch.

Dywedwyd wrthym y dylid dweud wrth ofalwyr maeth o'r cychwyn cyntaf a fydd disgwyl iddynt fynd â'u plentyn maeth i'r ysgol mewn ardal arall.

Dywedodd cyfranogwyr eraill wrthym, pan fydd yn rhaid i blentyn symud ysgol, y dylai'r ysgol newydd weithio gyda'r plentyn cyn ei ddyddiad dechrau i sicrhau bod ei anghenion yn cael eu deall a bod gan y plentyn bwynt cyswllt penodol o'r diwrnod cyntaf.

### **Gweithgareddau allgyrsiol**

Clywsom fod gweithgareddau allgyrsiol yn hanfodol i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gall pobl ifanc gael deialog fewnol negyddol, sy'n deillio o'r trawma maent wedi'i brofi. Gall cael gweithgareddau cymdeithasol neu chwaraeon roi cyfleoedd iddynt wneud cysylltiadau â phlant eraill a rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym y dylai gofalwyr maeth gael lwfansau digonol i allu talu am weithgareddau allgyrsiol ar gyfer eu plant maeth. Gall hyn fod yn

heriol i rai gofalgwyr maeth sy'n cael trafferthion ariannol. Fodd bynnag, dylai fod yn ddisgwyliad bod gofalgwyr maeth yn defnyddio rhywfaint o'u lwfans ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

### **Cydberthnasau â theuluoedd**

---

Dywedodd gwahanol grwpiau o gyfranogwyr wrthym y dylid cefnogi plant â phrofiad o fod mewn gofal i gynnal perthnasoedd iach â phawb sy'n bwysig iddynt, gan gynnwys brodyr a chwiorydd neu aelodau o'u teulu estynedig. Clywsom alwadau am roi'r un pwysigrwydd i gynnal perthynas â brodyr a chwiorydd â chynnal cysylltiad â rhieni geni.

### **Trin pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel troseddwy**

---

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu trin fel troseddwy yn fwy nag o'r blaen. Mae protocol ar waith sy'n annog pobl i beidio â'u trin fel troseddwy, ond roeddent yn teimlo bod angen mwy o ymchwil i ddeall pam roedd yr heddlu'n chwarae mwy o ran ym mywydau plant â phrofiad o fod mewn gofal nag o'r blaen.

Dywedodd cyfranogwyr eraill wrthym fod pethau sy'n digwydd mewn teulu confensiynol – fel brodyr a chwiorydd yn cweryla ac yn dadlau – yn cael eu trin yn hollol wahanol mewn lleoliad gofal preswyl. Weithiau gall yr heddlu ymyrryd mewn materion cymharol ddibwys.

## **Ar ôl gofal**

### **Yr ymyl clogwyn wrth gyrraedd 18 oed**

---

Siaradodd rhai cyfranogwyr â ni am sut mae gwasanaethau'n dod i ben yn sydyn wrth gyrraedd 18 oed i lawer o'r rhai sy'n gadael gofal. Yn sydyn, nid oes ganddynt unrhyw gefnogaeth a disgwylir iddynt wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain.

Dywedodd rhai cyfranogwyr, er eu bod yn deall yr angen i symud pobl ifanc i fyw'n annibynnol, bod rhywbeth sylfaenol o'i le am fodel sy'n blaenoriaethu symud pobl ifanc drwy'r system yn hytrach na diwallu anghenion penodol pob person ifanc unigol.

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylid cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal tan o leiaf 25 oed, ac o bosibl hyd at 30 os oes angen cymorth ychwanegol ar y person ifanc.

### **Llety heb ei reoleiddio**

---

Clywsom bryderon yn cael eu lleisio ynghylch llety heb ei reoleiddio, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed. Mae llawer o'r plant hynny'n agored iawn i niwed. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod Cymru ar ei hôl hi o ran deddfwriaeth i fynd i'r afael â llety heb ei reoleiddio o gymharu â Lloegr.

### **Y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'**

---

Clywsom fod darparwyr maethu yn annhebygol o gymryd plentyn 16 oed pan na fyddant yn cael incwm rheolaidd ar gyfer y lleoliad hwnnw am fwy na dwy flynedd. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid adolygu'r rheoliadau maethu fel y gall pobl ifanc aros yn hirach o dan y cynllun Pan Fydda i'n Barod.

### **Newidiadau mawr sydd eu hangen**

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

**Blaenoriaethu cyswllt â'r person ifanc:** cael un person neu sefydliad annibynnol i fod yn ffynhonnell gyson o gymorth i'r person ifanc, i'w helpu i ddeall gwasanaethau a'r system ofal.

**Cymorth iechyd meddwl ar gyfer pob person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal:** dylai fod gan bob person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gymorth therapiwtig cyn gynted ag y bydd yn mynd i mewn i'r system ofal. Dylai hyn fod yn seiliedig ar drawma, ac yn rhan o ddull system gyfan o ymdrin â materion iechyd meddwl.

**Eiriolaeth ar gyfer pob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal:** eiriolaeth hirdymor ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn rhoi ffynhonnell gyson o gymorth, eu helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a'u helpu i ddeall y system.

**Canolbwyntio ar gynllunio parhad:** canolbwyntio ar leoliadau parhaol o safon ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae angen mwy o hyfforddiant a chymorth ar ofalwyr maeth a staff.

**Datblygu perthnasoedd rhwng y cartref a'r ysgol:** dod â gofalwyr maeth i ysgolion i weithio ochr yn ochr â staff i ymgorffori arferion sy'n ystyriol o drawma.

**Ffocws ar y gweithlu gofal cymdeithasol:** ailffocysu gofal cymdeithasol ar waith uniongyrchol wyneb yn wyneb. Ailddosbarthu tasgau gweinyddol, symleiddio prosesau i leihau biwrocratiaeth, a lleihau llwythi achosion.

**Blaenoriaethu perthnasoedd â brodyr a chwiorydd:** dylid rhoi'r un pwysigrwydd i gynnal perthynas â brodyr a chwiorydd ag a roddir i gadw cysylltiad â rhieni geni.

**Sicrhau bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol:** Maent yn bwysig ac yn aros am amser hir ym mywydau pobl ifanc. Mae gan y Swyddogion bwerau i dynnu sylw CAF/CASS at faterion. Dylai dull y Swyddogion fod yn gyson ledled Cymru.

**Gwneud y cynllun Pan Fydda i'n Barod yn addas at y diben:** gwneud yn siŵr ei fod yn ymarferol yn ariannol i ofalwyr maeth a'i fod yn cael ei weithredu'n gyson ledled Cymru.

**Sefydlu prosesau cadarn i gefnogi plant sy'n mynd ar goll:** nid yw gwiriad 'diogel ac yn iach' presennol yr heddlu yn gweithio'n effeithiol.

**Codi'r oedran gadael gofal i 25 ar gyfer pawb:** sicrhau bod gan bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal hawl i gymorth a chefnogaeth wrth iddo drosglwyddo i fyw'n annibynnol.

**Gwell data:** i ddeall achosion o aneffeithlonrwydd a llwyddiannau'r system ofal yn ei chyfanrwydd, ac i gefnogi ymchwil a datblygu polisïau.

## 4. Plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (15 Chwefror)

### Cyn gofal

#### Cefnogaeth i helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd

---

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y byddai cymorth ychwanegol i deuluoedd yn atal rhai plant rhag cael eu rhoi mewn gofal. Ond dywedodd eraill, ni waeth beth fo lefel y gefnogaeth, na allai rhai plant aros gyda'u rhieni geni a'i bod yn iawn eu symud.

#### Stigma yn erbyn rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal

---

Dywedodd rhai cyfranogwyr wrthym fod rhieni sydd â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain yn aml mewn sefyllfa lle caiff eu plant eu tynnu i ffwrdd oherwydd profiad y rhieni o fod mewn gofal. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn annheg, ac y dylid rhoi cyfle i rieni ifanc ddangos eu bod yn rhieni da.

### Mewn gofal

#### Gwrando ar bobl ifanc

---

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt pan oeddent yn iau. Roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud drostynt heb iddynt gael cyfle i gyfrannu at y penderfyniad.

Clywsom gan rai pobl ifanc eu bod wedi dod yn fwy hyderus wrth fynd yn hŷn, a'u bod yn gwneud yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed. Dywedodd eraill wrthym fod p'un a oedd rhywun yn gwrando arnynt ai peidio yn dibynnu'n bennaf ar ba mor dda oedd eu gweithiwr cymdeithasol.

Fodd bynnag, dywedodd un cyfranogwr wrthym ei bod yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol, yn gyffredinol, bob amser wedi gwrando arni.

Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod yn teimlo ei fod wedi cael cam gan y system. Gofynnodd am ei ffeiliau achos pan ddaeth yn 16 oed, ac mae wedi bod yn brwydro am bum mlynedd i gael mynediad atynt.

#### Eiriolaeth

---

Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod yn cael cymorth eiriolaeth ond pan adawodd ei eiriolwr roedd yn teimlo ei fod wedi'i adael ac nad oedd ganddo lais.



Roedd modd iddo gael cymorth eiriolaeth, ond nid oedd cysondeb yn yr eiriolwyr a oedd yn cael eu neilltuo.

Clywsom hefyd nad yw rhai pobl ifanc yn ymddiried mewn eiriolwyr oherwydd eu bod yn credu eu bod yn gweithio i'r awdurdod lleol.

Dywedodd cyfranogwr arall, er ei fod yn hoffi ac yn ymddiried yn ei eiriolwr, nad oedd ei eiriolwr byth yn mynd gyda'r cyfranogwr i adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, ac y byddai wedi gwerthfawrogi hyn gan nad oedd yn teimlo ei fod yn gallu siarad dros ei hun.

Galwodd eraill am gynnig eiriolwr i bobl ifanc cyn gynted ag y byddant yn dod i mewn i'r system ofal.

### **Gwasanaethau cymdeithasol**

---

Clywsom brofiadau negyddol yn bennaf o weithio ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol. Ar y cyfan, dywedodd cyfranogwyr wrthym fod gweithwyr cymdeithasol da yn brin. Clywsom am rai o'r heriau penodol yr oedd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi'u hwynebu gyda gweithwyr cymdeithasol:

- Roedd rhai o'r bobl ifanc wedi cael llawer o weithwyr cymdeithasol. Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi cael 32. Gwnaethant esbonio bod hyn yn golygu bod yn rhaid i adrodd eu stori dro ar ôl tro, a bod hyn yn gallu bod yn anodd yn emosiynol ac yn llethol.
- Dywedodd un person ifanc wrthym ei bod wedi cymryd tair blynedd iddo gael pasbort gan nad oedd gweithwyr cymdeithasol yn gweithredu'n ddigon cyflym.
- Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod eisiau mynd ar daith rygbi, ond ar ôl pedwar mis o geisio cael cymeradwyaeth gan ei weithiwr cymdeithasol nid oedd wedi llwyddo. Yn y diwedd bu'n rhaid iddo fynd i'r llys i gael caniatâd.
- Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod, am yr wyth mlynedd diwethaf, i fod i dreulio amser gyda'i rieni geni ar ei ben-blwydd. Fodd bynnag, nid oedd erioed wedi gallu cael yr amser hwnnw gyda'i rieni geni gan fod gweithwyr cymdeithasol wedi methu ag ymddangos ar y diwrnod ei hun neu wedi methu â phrosesu'r cais mewn pryd.
- Dywedodd un person ifanc ei bod wedi cael cynifer o weithwyr cymdeithasol nad ydynt hyd yn oed yn ffarwelio â hi mwyach.

Dywedodd un gofalwr maeth mai'r cyfan y mae'n clywed amdano yw bod gan weithwyr cymdeithasol lwyth achosion uchel. Ond dywedodd bod hynny, i blant, yn swnio fel nad oes ots ganddynt, nad yw'r plentyn yn ddigon pwysig i weithwyr cymdeithasol fod yn werth eu hamser.

Awgrymodd rhai gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol a oedd yn cefnogi'r bobl ifanc a oedd yn bresennol ei bod yn ymddangos bod mwy a mwy o weithwyr cymdeithasol yn staff asiantaeth ar hyn o bryd, sy'n gwneud meithrin perthnasoedd hyd yn oed yn fwy heriol.

Clywsom hefyd alwadau am ailgyflwyno gweithwyr cymdeithasol cymunedol, sy'n gweithio mewn meysydd penodol ac yn dod i adnabod yr ysgolion a'r amgylchedd lleol.

Ond clywsom am rai profiadau cadarnhaol am weithwyr cymdeithasol, hefyd. Dywedodd un person ifanc wrthym fod ganddo weithiwr cymdeithasol da iawn, a fyddai'n ateb y ffôn pan fyddai'n ffonio ac yn dod i'w chyfarfod wyneb yn wyneb pan oedd yn cael trafferth.

## **Iechyd meddwl**

---

Clywsom fod pobl ifanc yn cytuno'n gyffredinol nad oes digon o gydnabyddiaeth i'r trawma y mae llawer o bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i hwynebu, ac effaith y trawma hwnnw ar iechyd meddwl pobl ifanc.

Clywsom alwadau am 'gynnig gweithredol' o gymorth iechyd meddwl i bob plentyn mewn gofal, fel y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth annibynnol. Clywsom na ddylai fod yn rhaid gofyn am y cymorth hwnnw – dylid ei roi i blant mewn gofal yn awtomatig.

## **Addysg**

---

### **Heriau i ddisgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

Thema gyffredin o'n trafodaeth oedd bod disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu trin yn wahanol yn yr ysgol. Clywsom fod pobl ifanc yn aml yn wynebu stigma enfawr dros eu statws gofal, a'u bod yn aml yn cael eu bwlio oherwydd hynny.

Clywsom am lawer o heriau gwahanol y mae rhai disgyblion â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu yn yr ysgol, gan gynnwys:

- Gweithwyr cymdeithasol yn dod i'r ysgol yn gwisgo eu bathodynau enw, sy'n ei gwneud yn amlwg i bawb eu bod yn weithwyr cymdeithasol, gan dynnu sylw at statws gofal y person ifanc.
- Gweithwyr cymdeithasol yn cymryd disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal allan o'u gwersi yn ystod y diwrnod ysgol, sy'n tarfu ar eu dysgu.
- Gall fod yn anodd cael caniatâd i fynd ar deithiau ysgol neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae mynd dramor ar deithiau yn arbennig o heriol.
- Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cynnal tra bod y person ifanc yn yr ysgol, sy'n golygu na all fod yn bresennol.

Clywsom fod rhai athrawon yn cymryd amser i ddeall y problemau y mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu, ac yn gweithio i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â hwy. Fodd bynnag, nid yw athrawon eraill yn deall ac nid oes ganddynt ddigon o hyfforddiant.

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym fod modd ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda gwahanol aelodau o staff – nid o reidrwydd y 'person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal' neu hyd yn oed athrawon, gallai fod yn unrhyw un – felly dylai holl staff yr ysgol gael hyfforddiant i ddeall mwy am y system ofal.

Clywsom y gall symud ysgol fod yn drawmatig i rai pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gall gweithio gyda'r ysgol newydd cyn diwrnod cyntaf y person ifanc helpu i wneud yn siŵr ei fod yn teimlo bod croeso iddo a'i fod yn cael ei gefnogi.

### **Gweithgareddau allgyrsiol**

Yn gyffredinol, dywedodd y bobl ifanc y buom yn siarad â hwy fod gweithgareddau allgyrsiol (fel chwaraeon neu offerynnau cerdd ac ati) yn rhyddhad ac yn saib i'w groesawu.

Fodd bynnag, dywedodd rhai pobl ifanc wrthym y gall costau mynd i'r gweithgareddau hynny fod yn ffactor sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan. Mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn gefnogol ac yn eu helpu i gael yr arian sydd ei angen arnynt i brynu cyfarpar neu offerynnau, ac ati. Ond dywedodd eraill wrthym y gall ddibynnu ar eu perthynas â'u gofalwyr maeth – a bod pobl ifanc weithiau'n teimlo'n anghysurus yn gofyn am arian ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, a'u bod yn oedi cyn gofyn i'w gofalwr maeth, neu efallai'n osgoi gofyn o gwbl.

## **Lleoliadau**

---

Roedd rhai o'r bobl ifanc y buom yn siarad â hwy wedi cael eu symud yn rheolaidd rhwng lleoliadau. Dywedodd un wrthym ei fod wedi cael ei symud 18 o weithiau rhwng ei nain a thaid a gofalwyr maeth. Dywedodd un arall wrthym ei fod wedi cael ei symud 21 o weithiau.

Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi byw ar y strydoedd yn 12 oed am tua 4 mis. Pan oedd yn 16 oed cafodd ei roi mewn hostel. Dywedodd wrthym ei fod yn teimlo nad oedd neb ei eisiau, ac nad oedd neb am ei gadw.

Dywedodd person ifanc arall wrthym ei fod yn caru ei ofalwyr maeth, a bod ei ofalwyr am ei gadw. Ond roedd ei ofalwyr maeth yn cael eu hystyried yn 'ofalwyr tymor byr', a oedd yn golygu bod yn rhaid iddo symud i leoliad arall.

Ond clywsom rai straeon cadarnhaol - roedd un person ifanc wedi bod gyda'i ofalwr maeth ers pan oedd yn faban. Roeddent wedi cael sefydlogrwydd a chefnogaeth drwy gydol ei blentyndod, ac yn ystyried ei hun yn ffodus iawn o gymharu â'r rhan fwyaf o blant eraill â phrofiad o fod mewn gofal.

## **Gweld teulu**

---

Clywsom fod brodyr a chwiorydd plant mewn gofal yn aml yn cael eu rhoi mewn lleoliadau gwahanol. Gall hyn fod yn anodd iawn i rai plant, a chlywsom - i rai pobl ifanc - fod eu perthynas â'u brodyr a'u chwiorydd yn bwysicach na'u perthynas â'u rhieni geni.

Clywsom fod rhai gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth yn cydnabod pa mor bwysig yw perthnasoedd â brodyr a chwiorydd, a'u bod yn gweithio'n galed iawn i gadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd.

## **Y Gymraeg**

---

Dywedodd un cyfranogwr wrthym mai Cymraeg oedd ei iaith gyntaf, ond na roddwyd unrhyw ystyriaeth i hynny. Cafodd ei anfon i ysgol Saesneg, ei leoli gyda gofalwr maeth Saesneg ei iaith, a dyrannwyd gweithwyr cymdeithasol Saesneg eu hiaith iddo.

## **Ar ôl gofal**

### **Yr ymyl clogwyn wrth gyrraedd 21 oed**

---

Dywedodd un person ifanc wrthym fod cefnogaeth yn diflannu wrth gyrraedd 21 oed. Os oes gan berson ifanc broblemau iechyd meddwl, nid oes unrhyw un i droi ato.

---

Dywedodd un person ifanc fod angen cymorth yn fwy nag erioed wrth i berson ifanc fynd yn hŷn a chyrraedd oedran lle mae disgwyl iddo fyw'n fwy annibynnol. Gwnaethant ein hatgoffa bod modd i rywun â theulu confensiynol ffonio un o'i rieni am help - er enghraifft os oes ganddo deiar fflat. Mae'n annhebygol y bydd rhywun sydd wedi bod mewn gofal yn gallu gwneud hynny. Byddai hyd yn oed llinell gymorth yn ddefnyddiol.

### **Symud i addysg bellach neu addysg uwch**

---

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym fod y stigma maent yn ei deimlo fel disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn effeithio ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth iddynt symud i addysg bellach neu uwch. Dywedodd un person ifanc wrthym fod gweithwyr proffesiynol, ar y cyfan, yn credu nad yw pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn mynd i'r brifysgol. Galwodd am well cyngor gyrfaoedd i'w helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo er bod cymorth ar gael i fynd i addysg uwch, nad yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwybod amdano neu nad ydynt yn gwybod amdano ar gam digon cynnar i effeithio ar eu penderfyniadau. Clywsom, ar y cyfan, nad yw staff mewn colegau a phrifysgolion wedi cael eu hyfforddi i weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

### **Llety heb ei reoleiddio**

---

Dywedodd un person ifanc wrthym ei fod wedi cael ei daflu allan o'i leoliad maeth. Dywedodd wrth ei Chynghorydd Personol, a awgrymodd y dylai aros mewn llety gwely a brecwast. Nid oedd y person ifanc yn teimlo'n ddiogel yno - roedd pobl yn y llety gwely a brecwast a oedd newydd ddod allan o'r carchar.

### **Rhwystrau rhag byw'n annibynnol**

---

Dywedodd un person ifanc wrthym fod pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn destun gwahaniaethu wrth chwilio am dŷ. Dywedodd landlord wrtho na fyddai'n caniatáu i unrhyw un sy'n gadael gofal rentu'r eiddo, gan fod tenantiaid blaenorol, a oedd wedi gadael gofal, wedi difrodi'r eiddo.

### **Cynghorwyr Pobl Ifanc**

---

Dywedodd y bobl ifanc a siaradodd am Gyngorwyr Pobl Ifanc wrthym eu bod yn cael trafferth cael gafael arnynt, neu nad ydynt yn cynnig y cymorth sydd ei angen arnynt. Dywedodd un cyfranogwr wrthym nad oedd ganddi gynghorydd wedi'i enwi - cafodd ei rhoi ar 'restr heb gynghorydd wedi'i ddyrannu', a bu'n rhaid iddi ffonio'r brif swyddfa i ofyn am unrhyw gymorth.

## **Newidiadau mawr sydd eu hangen**

Clywsom y cynigion a ganlyn ar gyfer diwygio'r system ofal:

**Dylai addysg fod yn amser gwarchoddedig:** ni ddylai gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill ddod i mewn i ysgolion a thorri ar draws amser dysgu disgyblion sydd â phrofiad o fod mewn gofal, oni bai ei fod yn argyfwng. Pan fyddant yn gwneud hynny, dylent wneud pob ymdrech i osgoi tynnu sylw at statws gofal y plentyn maent yn ei weld.

**Hyfforddiant i holl staff yr ysgol i ddeall y system ofal:** nid athrawon neu staff bugeiliol yn unig y mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â hwy. Dylai holl staff yr ysgol gael hyfforddiant sylfaenol i ddeall y system ofal, fel y gallant helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n gyfforddus yn siarad â hwy.

**Blaenoriaethu amser cyswllt plant â phrofiad o fod mewn gofal gyda'u teulu:** lle bo'n bosibl, ac yn ddiogel, dylid gwneud pob ymdrech i alluogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael cyswllt rheolaidd ag aelodau o'u teulu.

**Cefnogaeth iechyd meddwl gwarantedig i bob plentyn mewn gofal:** dylid darparu cymorth iechyd meddwl therapiwtig i bob plentyn wrth iddo ddod i mewn i'r system ofal.

**Cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i wneud gwahaniaeth o fewn y system ofal:** eu cefnogi i fod yn ofalwyr maeth ac yn weithwyr cymdeithasol eu hunain, a'u cynnwys wrth recriwtio a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.

**Sefydlu rhwydweithiau cymorth rhwng cymheiriaid:** mwy o rwydweithiau a grwpiau, ar-lein ac all-lein, i helpu plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal i rannu eu profiadau.

**Hyfforddiant gorfodol a mwy o atebolrwydd i ofalwyr maeth:**

## Annex 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Roedd y grwpiau a ganlyn o bobl/sefydliadau yn bresennol yn ein digwyddiadau i randdeiliaid yn ystod gwanwyn 2023.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
Rhieni geni – 26 Ionawr	<p><b>Rhieni geni (a staff cefnogi)</b> Barnardo's, Babi a Fi</p> <p><b>Rhieni geni (a staff cefnogi)</b> Barnardo's, Reflect</p> <p><b>Rhieni geni (a staff cefnogi)</b> CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd</p> <p><b>Rhieni geni (a staff cefnogi)</b> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Eiriolaeth Rhieni</p> <p><b>Rhieni geni (a staff cefnogi)</b> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Project Unity</p>
Gweithwyr proffesiynol ac academyddion sy'n gweithio gyda rhieni geni - 26 Ionawr	<p><b>Leah Wood</b> Barnardo's</p> <p><b>Seren Howarth</b> Barnardo's</p> <p><b>Dr Helen Hodges</b> CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd</p> <p><b>Dr. Louise Roberts</b> CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd</p> <p><b>Nadia Lovell</b> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol</p> <p><b>Helen Parry</b> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol</p> <p><b>Dr Charlotte Edney</b> Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield</p> <p><b>Sarah Durrant</b> Tros Gynnal Plant Cymru</p>
Gweithwyr proffesiynol ac academyddion	<p><b>Suzanne Griffiths</b> Adoption UK Cymru</p>

<p>sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal - 2 Chwefror</p>	<p><b>Jason Baker</b> Adoption UK Cymru</p> <p><b>Penny Jeffreys</b> Adoption UK Cymru</p> <p><b>Lynette Lovell</b> Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru</p> <p><b>Samantha Frith-Jones</b> Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru</p> <p><b>Katie Anthony</b> Barnardo's</p> <p><b>Josh David-Read</b> Barnardo's</p> <p><b>Dr Helen Hodges</b> CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd</p> <p><b>Sean O'Neill</b> Plant yng Nghymru</p> <p><b>Kate Aubrey</b> Plant yng Nghymru</p> <p><b>Tom Davies</b> Cymdeithas y Plant</p> <p><b>Sarah Thomas</b> Rhwydwaith Maethu Cymru</p> <p><b>Elizabeth Bryan</b> Rhwydwaith Maethu Cymru</p> <p><b>Ann Bell</b> Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol</p> <p><b>Elly Jones</b> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol</p> <p><b>Lisa Huish</b> Lleisiau Rhieni yng Nghymru</p> <p><b>Gareth Thomas</b> Lleisiau Rhieni yng Nghymru</p> <p><b>Sarah Durrant</b> Tros Gynnal Plant Cymru</p>
<p>Plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal - 15 Chwefror</p>	<p><b>Plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (a staff cefnogi)</b> Wedi'i hwyluso gan Voices From Care Cymru</p>